# Sgiliau a dysgu

# Gyrfaoedd a’r byd gwaith

Mae’r ddogfen hon yn amlygu’r datganiadau neu’r adrannau hynny o fewn deilliannau dysgu gyrfaoedd a’r byd gwaith lle ceir cysylltiad pendant â

- datblygu meddwl
- datblygu cyfathrebu
- datblygu TGCh
- datblygu rhif

a hybu

- Cwricwlwm Cymreig a Chymru, Ewrop a’r byd
- addysg bersonol a chymdeithasol
- gyrfaoedd a’r byd gwaith.

Mater i’r ysgolion benderfynu arno yw nifer a chyd-destun y cyfleoedd hyn, a hynny o fewn eu gorolwg/cynllun o’r cwricwlwm.

## Datblygu meddwl

Dylai ysgolion ddarparu cyfleoedd, lle bo'n briodol, i ddysgwyr ddatblygu a chymhwyso meddwl ar draws y cwricwlwm trwy'r prosesau cynllunio, datblygu a myfyrio.

Mewn gyrfaoedd a'r byd gwaith, bydd y dysgwyr yn archwilio, cynllunio, datblygu a myfyrio ynghylch syniadau a gwybodaeth, gan ymateb i eraill yn ogystal ag ymateb i'w gwaith eu hunain.

Mewn gyrfaoedd a'r byd gwaith, mae cyfleoedd i ddatblygu meddwl ar draws yr adrannau Sgiliau ac Ystod yn y deilliannau dysgu ar gyfer Cyfnodau Allweddol 3 a 4 ac Ôl-16.

## Datblygu cyfathrebu

Dylai ysgolion ddarparu cyfleoedd, lle bo’n briodol, i ddysgwyr ddatblygu a chymhwyso sgiliau cyfathrebu ar draws y cwricwlwm trwy’r sgiliau llafaredd, darllen, ysgrifennu a chyfathrebu ehangach.

Mewn gyrfaoedd a’r byd gwaith, bydd y dysgwyr yn cyfathrebu mewn amryw o ffyrdd, gan gynnwys siarad, gwrando, darllen, ysgrifennu a’r ffordd y maen nhw’n cymryd rhan mewn gweithgareddau. Byddant yn datblygu’r sgiliau hyn drwy ymarfer gyda phobl yn yr amgylchedd dysgu uniongyrchol a’r tu hwnt. Cefnogir hyn gan eu hadolygiad o’u gwaith eu hunain a gwaith eraill. Wrth wneud hyn, byddant yn dysgu sut i gyfathrebu’n effeithiol mewn ystod o sefyllfaoedd.

Mewn gyrfaoedd a’r byd gwaith, mae cyfleoedd i ddatblygu cyfathrebu ar draws adrannau Sgiliau ac Ystod yn y deilliannau dysgu ar gyfer Cyfnodau Allweddol 3 a 4 ac Ôl-16.

## Datblygu TGCh

Dylai ysgolion ddarparu cyfleoedd, lle bo'n briodol, i ddysgwyr ddatblygu a chymhwyso sgiliau TGCh ar draws y cwricwlwm trwy ddarganfod, datblygu, creu a chyflwyno gwybodaeth a syniadau a thrwy ddefnyddio ystod eang o offer a meddalwedd.

Mewn gyrfaoedd a'r byd gwaith, bydd y dysgwyr yn cymhwyso technoleg i ymchwilio ac i ddatblygu gwybodaeth a dealltwriaeth o yrfaoedd a materion cysylltiedig â gwaith. Byddant yn ei defnyddio hefyd i gofnodi a chyflwyno eu gwaith yn briodol.

### Cyfnod Allweddol 3

Sgiliau

Dylid rhoi cyfleoedd i'r disgyblion:

6. ddefnyddio TGCh i ganfod, gwirio a defnyddio gwybodaeth berthnasol.

### Cyfnod Allweddol 4

Sgiliau

Dylid rhoi cyfleoedd i'r disgyblion:

6. ddefnyddio TGCh i ddod o hyd i wybodaeth sy'n gywir ac yn berthnasol am ystod o bwrpasau.

### Ôl-16

Sgiliau

Dylid rhoi cyfleoedd i'r disgyblion:

6. ddefnyddio TGCh yn ddetholus ac yn effeithlon i ganfod, datblygu a chyfosod gwybodaeth fel ei bod yn addas at ddiben.

## Datblygu rhif

Dylai ysgolion ddarparu cyfleoedd, lle bo'n briodol, i ddysgwyr ddatblygu a chymhwyso eu sgiliau rhif ar draws y cwricwlwm trwy ddefnyddio gwybodaeth fathemategol, cyfrifo, a dehongli a chyflwyno casgliadau.

Mewn gyrfaoedd a'r byd gwaith, bydd y dysgwyr yn canfod, archwilio a dadansoddi data sy'n berthnasol i'w hanghenion yn ddarpar weithwyr cyflogedig/cyflogwyr y dyfodol.

**Cyfnod Allweddol 3**

<u>Sgiliau</u>

Dylid rhoi cyfleoedd i'r disgyblion:

5. ddewis a dehongli data am gyfleoedd dysgu a gyrfa.

**Cyfnod Allweddol 4**

<u>Sgiliau</u>

Dylid rhoi cyfleoedd i'r disgyblion:

5. ddewis, cymharu a dehongli data sy'n berthnasol i'w hanghenion eu hunain.

**Ôl-16**

<u>Sgiliau</u>

Dylid rhoi cyfleoedd i'r disgyblion:

5. ddethol, cymharu a dehongli data o amryw o sefyllfaoedd sy'n berthnasol i'w hanghenion eu hunain.

# Y Cwricwlwm Cymreig (7–14) a Chymru, Ewrop a'r Byd (14–19)

Dylai ysgolion ddarparu cyfleoedd, lle bo'n briodol, i ddysgwyr 7-14 oed ddatblygu a chymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth o nodweddion diwylliannol, economaidd, amgylcheddol, hanesyddol ac ieithyddol Cymru. Dylai dysgwyr 14–19 oed gael cyfleoedd i fod yn weithredol wrth ddeall agweddau gwleidyddol, cymdeithasol, economaidd a diwylliannol ar Gymru fel rhan o'r byd cyfan.

Bydd gyrfaoedd a'r byd gwaith yn cyfrannu'n benodol at ddealltwriaeth economaidd drwy ymchwilio i gyfleoedd dysgu, gyrfaoedd a chyflogaeth. Bydd natur newidiol y cyfleoedd hynny yn aml hefyd yn amlygu materion ieithyddol, hanesyddol ac amgylcheddol yn yr ardal ac ymhellach i ffwrdd.

**Cyfnod Allweddol 4**

<u>Ystod</u>

Dylai dysgwyr allu datblygu eu sgiliau, eu hagweddau a'u gwerthoedd drwy ystod o gyd-destunau. Dylid rhoi cyfleoedd iddynt:

*Ceisio gwybodaeth*

3. archwilio cyfleoedd a thueddiadau cyflogaeth a dysgu yn lleol ac ymhellach i ffwrdd.

**Ôl-16**

<u>Ystod</u>

Dylai dysgwyr allu datblygu eu sgiliau, eu hagweddau a'u gwerthoedd drwy ystod o gyd-destunau. Dylid rhoi cyfleoedd iddynt:

*Ceisio gwybodaeth*

3. ymchwilio a gwerthuso ystod o wybodaeth am yrfaoedd a'r farchnad lafur yng Nghymru.

## Addysg bersonol a chymdeithasol

Dylai ysgolion ddarparu cyfleoedd, lle bo’n briodol, i ddysgwyr hyrwyddo eu hiechyd a’u lles emosiynol a’u datblygiad moesol ac ysbrydol; fod yn ddinasyddion gweithgar a hybu datblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang; a pharatoi ar gyfer dysgu gydol oes.

Bydd gyrfaoedd a’r byd gwaith yn cyfrannu at addysg bersonol a chymdeithasol y dysgwyr trwy gysylltiadau â’r byd gwaith a thrwy herio’r stereoteip. Bydd hefyd yn rhoi cyfleoedd i ddatblygu eu dealltwriaeth o ryngweithio cymdeithasol drwy weithio gydag eraill.

Mae addysg bersonol a chymdeithasol yn berthnasol ar draws adrannau Sgiliau ac Ystod y deilliannau dysgu ar gyfer Cyfnodau Allweddol 3 a 4 ac Ôl 16.

## Gyrfaoedd a'r byd gwaith

Dylai ysgolion ddarparu cyfleoedd, lle bo'n briodol, i ddysgwyr 11–19 oed datblygu eu hymwybyddiaeth o'r maes gyrfaoedd a'r byd gwaith a sut mae eu hastudiaethau'n cyfrannu at baratoi ar gyfer bywyd gwaith.